

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad ymchwil 'Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru'.

Cynnwys

1. Cefndir i'r [adroddiad ymchwil](#).
 2. Trosolwg o Ymateb Llywodraeth Cymru
 3. Ymatebion manwl:
 - 3.1. Meysydd Gweithredu cam cyntaf:
 - A. Gwaith Deddfwriaethol Paratoadol
 - B. Canllawiau
 - C. Adolygiad o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
 - D. Ymgorffori Hawliau Dynol yn yr Asesiad Effaith
 - E. Codi Ymwybyddiaeth
 - 3.2. Materion cyfiawnder
 - 3.3. Argymhellion a dderbyniwyd ar gyfer eu rhoi ar waith yn y dyfodol neu y mae angen eu trafod ymhellach ag asiantaethau eraill
- Atodiad A – Tabl Cryno o'r Argymhellion ac Ymatebion.

1. Cefndir i'r gwaith ymchwil

Ym mis Ionawr 2020, comisiynodd Llywodraeth Cymru Brifysgol Abertawe, ar y cyd â Phrifysgol Bangor, Diverse Cymru a Cymru Ifanc, i ystyried y ffordd orau o gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Nod y gwaith ymchwil oedd:

- datblygu dealltwriaeth glir o'r ddeddfwriaeth a'r fframweithiau canllawiau statudol presennol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru:
- nodi a oes angen newidiadau i ddeddfwriaeth/canllawiau statudol presennol, a/neu ddeddfwriaeth/canllawiau statudol newydd, ac i ba raddau, er mwyn atgyfnerthu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru

Daeth nifer o ganfyddiadau allweddol i'r amlwg o'r gwaith ymchwil. Yn eu plith roedd rhai yn ymwneud â deddfwriaeth, ymgorffori hawliau dynol, asesiadau effaith, gwaith monitro, atebolrwydd a gorfodi, codi ymwybyddiaeth a phandemig y coronafeirws (COVID-19).

Roedd yr adroddiad ymchwil hefyd yn cynnwys 40 o argymhellion, y rhan fwyaf ohonynt ar gyfer Llywodraeth Cymru, ond rhai hefyd ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, rheoleiddwyr ac arolygiaethau.

Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn sgil y gwaith ymchwil ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru drwy'r ddolen ganlynol:

<https://llyw.cymru/cryfhau-hyrwyddo-cydraddoldeb-hawliau-dynol-yng-nghymru>

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad ymchwil 'Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru'. Cynigiwn y dylid mabwysiadu dull fesul cam o fynd i'r afael â'r argymhellion a dderbyniwyd gennym. Bydd hyn yn ein galluogi i flaenoriaethu camau gweithredu Llywodraeth Cymru a chanolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae'r angen taeraf, yn ein barn ni.

Mae'r ymatebion isod wedi'u trefnu yn unol â'r dull hwn ac, mewn rhai achosion, maent wedi'u trefnu gyda'i gilydd i adlewyrchu materion cydgysylltiedig. Mae'r ymatebion yn adlewyrchu trafodaethau a gynhaliwyd ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, ynghyd â gweithgarwch ymgysylltu cychwynnol ar y cyd ag asiantaethau allanol lle y bo'n briodol, fel y nodir. Mae Atodiad A yn cynnwys trosolwg o'r argymhellion a'r prif ymateb.

2. Trosolwg o Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried ehangder yr adroddiad a nifer yr argymhellion, mae'r ymateb hwn wedi'i ddatblygu a'i drefnu fesul cam ac ar sail thematig. Mae'r argymhellion wedi'u trefnu gyda'i gilydd lle y bo'n briodol, gan ddilyn trefn yr adroddiad ei hun i raddau helaeth, ac mae llawer o'r ymatebion isod yn mynd i'r afael â sawl argymhelliad gyda'i gilydd, fel y nodir. Nodwyd pum prif faes gweithredu lle mae camau gweithredu wedi dechrau cael eu cymryd eisoes neu lle y gellid dechrau cymryd camau gweithredu'n gyflym, sef:

- A. Gwaith Deddfwriaethol Paratoadol
- B. Canllawiau
- C. Adolygiad o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- D. Ymgorffori Hawliau Dynol yn yr Asesiad Effaith
- E. Codi Ymwybyddiaeth

Yn ogystal â'r pum elfen hyn o waith, mae sawl un o'r argymhellion (26, 30 a 39) yn ymwneud â'r **Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**. Eir i'r afael â'r rhain mewn cyhoeddiad sydd ar ddod sy'n nodi cynnydd yn erbyn argymhellion y Comisiwn hwnnw. Bydd y cyhoeddiad hwnnw'n cwmpasu materion y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad ymchwil ac yn dangos ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd drwy gymryd camau ar y cyd â phartneriaid o fewn ein maes cymhwysedd ein hunain a thrwy drafodaethau â Llywodraeth y DU. Eir i'r afael â'r argymhellion hynny drwy'r adroddiad a'r broses honno yn rheolaidd, a darperir diweddariadau rheolaidd i'r Grŵp Llywio.

Mae'r tabl yn Adran 3.1 isod yn nodi pa argymhellion sydd wedi'u cynnwys o dan bob Maes Gweithredu ac yn egluro'r dull arfaethedig o weithredu o dan bob Maes Gweithredu. O dan y dull hwn, eir i'r afael â rhai argymhellion ym mhob Maes Gweithredu yn gyflymach nag eraill. Yn ogystal, bydd angen trafod rhai ohonynt ymhellach â phartneriaid allanol, fel y nodir.

Caiff yr argymhellion sy'n weddill (h.y. y rhai na chânt eu cwmpasu'n uniongyrchol gan un o'r chwe phrif Faes Gweithredu) eu hystyried yn Adran 3.3.

Mae Atodiad A yn cynnwys tabl cryno sy'n nodi'r ymateb i bob argymhelliad yn ei dro a, lle y bo'n bosibl, y Maes Gweithredu perthnasol ar gyfer pob un.

Mae cysylltiad agos rhwng y pum Maes Gweithredu a bydd y gwaith a wneir o dan bob un yn cefnogi'r nod cyffredinol o gryfhau a hyrwyddo hawliau dynol yng Nghymru. Yn benodol, er mai prif ffocws Maes Gweithredu A yw paratoi ar gyfer camau deddfwriaethol yn y dyfodol, gallai pob un o'r pum maes gweithredu gyfrannu at hyn. Fel y nodir isod, bydd cwmpas ac amseru unrhyw ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i benderfyniadau Gweinidogol yn y dyfodol; byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar unrhyw opsiynau deddfwriaethol sy'n dod i'r amlwg.

Yn gyffredinol, mae'r ymateb yn canolbwyntio ar faterion eang ym maes cydraddoldeb ac (yn benodol) hawliau dynol. Mae hyn yn adlewyrchu ein barn, sef y dylai'r ymateb i'r adroddiad ymchwil ategu yn hytrach na dyblygu'r ymrwymadau yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru a'i Chynlluniau Gweithredu mewn perthynas â rhywedd; anabledd; hil; LHDTC+; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; a Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.

Os cytunir ar y dull gweithredu a awgrymir yn yr ymateb hwn, caiff cynllun gwaith ac amserlen fanwl eu datblygu er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith.

3. Ymatebion Manwl

3.1. MEYSYDD GWEITHREDU CAM CYNTAF

A. GWAITH DEDDFWRIAETHOL PARATOADOL – Argymhellion 1; 25

Cadarnhaodd y gwaith ymchwil fod rhanddeiliaid yn dymuno i hawliau dynol gael eu hymgorffori ymhellach ond nid yw'n datrys materion allweddol o ran y ffordd orau o ymgorffori hawliau dynol, a pha hawliau y dylid eu cynnwys.

Felly, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn Argymhellion 1 a 25 mewn egwyddor, gan nodi eu bod yn gyson â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru." Mae hefyd yn cytuno bod angen rhagor o waith i bennu cwmpas y dull gweithredu cyffredinol; mae Gweinidogion wedi nodi y dylai dull cyfannol megis Bil Hawliau Dynol Cymru barhau o dan ystyriaeth ac y dylai opsiynau eraill, gan gynnwys rhai mewn perthynas â hawliau pobl hŷn a hawliau plant, gael eu hystyried hefyd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith manwl ar opsiynau deddfwriaethol. Bydd cwmpas ac amseru unrhyw gamau deddfwriaethol yn ddarostyngedig i benderfyniadau Gweinidogol yn y dyfodol, a fyddai'n dilyn ymgynghoriad ffurfiol.

Mae ymgynghoriad diweddar Llywodraeth y DU ar gyflwyno Bil Hawliau yn lle Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi cymhlethu'r cyd-destun deddfwriaethol. Nid yw Llywodraeth y DU wedi ymateb i'r ymgynghoriad hyd yma ac nid yw'n glir pryd y bydd Bil y DU yn cael ei gyflwyno, os o gwbl. Os caiff y Bil ei gyflwyno, byddai angen ystyried y cynigion a'u goblygiadau yn fanwl cyn i unrhyw Fil cysylltiedig gael ei gyflwyno yng Nghymru.

Roedd Argymhelliad 1 yn nodi y “dylai Llywodraeth Cymru sefydlu tasglu hawliau dynol i archwilio opsiynau a chyflwyno cynigion manwl ar gyfer ymgorffori hawliau dynol yng Nghymru.” Roedd aelodau o'r Grŵp Llywio Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gefnogol iawn i'r cynnig hwn yn eu cyfarfod ym mis Hydref 2021.

Gan fod y Grŵp Llywio ei hun yn un sefydledig a chanddo aelodaeth eang sydd ag arbenigedd amrywiol a phrofiad bywyd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cadw'r grŵp a'i gryfhau i ddod yn “Grŵp Cyngori ar Hawliau Dynol”. Caiff y cylch gwaith a'r aelodaeth eu hadolygu er mwyn galluogi'r grŵp i gyflawni'r rôl hon, gan gynnwys goruchwyllo'r holl waith a wneir mewn ymateb i'r adroddiad ymchwil.

Yn ogystal, caiff y Grŵp Cyngori ei gefnogi gan un neu fwy o weithgorau, er mwyn sicrhau y gellir ymgymryd â gwaith manwl mewn ffordd ystwyth, gan ddefnyddio arbenigedd ychwanegol lle y bo'n briodol. Yn y lle cyntaf, byddwn yn gweithio gydag awduron yr adroddiad i ystyried cylch gwaith ac aelodaeth gweithgor a allai, ar y cyd â'r Grŵp Cyngori ar Hawliau Dynol a chan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, gyflawni'r rôl a fwriadwyd ar gyfer tasglu.

B. CANLLAWIAU – Argymhellion 2-4; 6-10; 12-13; (14 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) 15-16

Mae nifer fawr o argymhellion sy'n ymwneud â chanllawiau statudol ac anstatudol, ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen canllawiau newydd mewn perthynas â materion hawliau dynol ac mae'n cynnig y dylid datblygu'r cyfryw ganllawiau mewn ffordd gydgysylltiedig, gyda'r bwriad o gynhyrchu amrywiaeth o allbynnau cysylltiedig dros amser.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu ‘Dull Gweithredu Hawliau Dynol’ ac rydym eisoes wedi gwneud llawer o waith yn y maes hwn. Mae ein [cynllun Codi Ymwybyddiaeth](#) ar Hawliau Plant yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys UNICEF a Chomisiynydd Plant Cymru, i ddatblygu dull cyfunol o ymgorffori hawliau plant mewn sefydliadau sector cyhoeddus. O ran hawliau pobl hŷn, mae ein [Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio](#) yn hyrwyddo dull seiliedig ar hawliau ac yn cyfeirio at y [canllaw](#) ar ymgorffori dull seiliedig ar hawliau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dau ganllaw i hyrwyddo'r ffordd hon o weithio: [Sicrhau bod hawliau'n gweithio i bobl hŷn](#) – canllaw i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol; a [Sicrhau bod hawliau'n gweithio i bobl hŷn](#) – canllaw i bobl hŷn. Ar hyn o bryd, mae'r tîm Gofalwyr Di-dâl a Phobl Hŷn yn Llywodraeth Cymru yn ariannu Age Cymru i weithio gyda grwpiau pobl hŷn i godi ymwybyddiaeth o hawliau, gan ddefnyddio'r cyhoeddiad uchod fel cyfrwng i ddechrau'r sgwrs. Mae Age Cymru hefyd yn cynhyrchu fideo a phegyn cymorth ac rydym yn bwriadu cynnal ymgyrch hawliau pobl hŷn yn ddiweddarach eleni gan ddefnyddio taflen: [Deall eich hawliau gofal a chymorth wrth i chi fynd yn hŷn](#).

O ran Argymhelliad 9, disgwylir i gyrff cyhoeddus gyflawni eu rhwymedigaethau mewn perthynas â Chydraddoldeb a Hawliau Dynol eisoes wrth gyflawni eu dyletswyddau. Byddai hyn yn cynnwys eu dyletswydd llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddiwygio'r canllawiau statudol ar gyfer cyrff cyhoeddus o dan Ddeddf

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ond caiff yr argymhelliad hwn ei gynnwys fel ystyriaeth os caiff y canllawiau eu diwygio.

O ran argymhelliad 10, mae angen deddfwriaeth er mwyn sefydlu is-grwpiau ac nid oes unrhyw newidiadau deddfwriaethol wedi'u rhaglennu. Byddai angen gwaith pellach i ddisgrifio diben a Chylch Gwaith is-grwpiau er mwyn cyflawni'r nodau. Pan eir ati i adolygu canllawiau statudol, rydym yn cytuno y byddai'n synhwyrol adolygu'r gofynion ar gyfer adroddiadau blynyddol – gan gynnwys yr hyn a gaiff ei gynnwys yn yr adroddiadau hynny.

Ochr yn ochr â'r gwaith rydym yn ei wneud ar y cyd â Chomisiynwyr Plant a Phobl Hŷn Cymru, byddwn yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i baratoi canllawiau anstatudol ar sut y gall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rhwymedigaethau hawliau dynol weithio gyda'i gilydd wrth gyflawni eu dyletswydd llesiant.

Rydym yn cytuno y byddai'n synhwyrol adolygu'r gofynion ar gyfer adroddiadau a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gan gynnwys yr hyn a gaiff ei gynnwys yn yr adroddiadau. Credwn mai'r opsiwn mwyaf ymarferol yn y byrdymor fyddai gwneud hynny ar sail anstatudol.

O ran y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ei hymgyngoriadau ei hun, bydd diweddariadau i ganllawiau staff Llywodraeth Cymru ar gynnal ymgynghoriadau ac Aseidiadau Effaith Integredig yn y dyfodol yn nodi y dylid defnyddio ymgynghoriadau mewn ffordd fwy penodol i gasglu barn ar effaith cynigion. Gan ein bod yn derbyn argymhelliad 17 ac y byddwn yn ychwanegu adran ar hawliau dynol at yr Aseiad Effaith Integredig, caiff hawliau dynol eu cwmpasu gan y canllawiau hyn ochr yn ochr â chydraddoldeb, pob elfen bresennol o'r Aseiad Effaith Integredig, a phob elfen ohono yn y dyfodol.

Ar gyfer rhai o'r argymhellion, gallwn dderbyn rhannau ohonynt nawr ac ystyried elfennau eraill ohonynt dros amser. Ni fwriedir cyflwyno unrhyw newidiadau deddfwriaethol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o roi argymhelliad 6 ar waith ar sail anstatudol. Yn yr un modd, er y bydd angen ystyried y ffordd y gellir rhoi argymhelliad 7 ar waith, gallwn weithio gyda phartïon perthnasol i wneud hyn, a gall swyddogion Llywodraeth Cymru ystyried y gwerth ychwanegol a sut y gellir hwyluso'r dull a gynigiwyd fel rhan o'r argymhelliad hwn ar sail anstatudol. Rydym hefyd yn ymrwmo i ystyried argymhelliad 3 ymhellach o ran integreiddio hawliau dynol fel safonau ar gyfer llunio polisiâu, gan y gallwn weithio gyda phartneriaid i ddod i gonsensws ynghylch yr hyn y mae'r safonau hyn yn ei olygu a sut y byddent yn gweithredu'n ymarferol.

C. DYLETSWYDD CYDRADDOLDEB Y SECTOR CYHOEDDUS – Argymhellion 5; 11; 14

Ymateb: Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i adolygu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac mae'r broses hon eisoes yn mynd rhagddi. Caiff y camau gweithredu y galwyd amdanynt fel rhan o'r argymhellion hyn eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

Bydd yr adolygiad yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid allweddol, megis y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, cyrff Sector Cyhoeddus a Thrydydd Sector yng Nghymru, a rhanddeiliaid a phartïon eraill â diddordeb ledled Cymru.

Fel rhan o'r ymarfer cwmpasu, rydym wrthi'n sefydlu proses i ailennyn diddordeb rhanddeiliaid a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y gwaith hwn.

D. YMGORFFORI HAWLIAU DYNOL MEWN PROSES AU ASESU EFFAITH INTEGRIDIG – Argymhellion 17-22

Ymateb: Yn Llywodraeth Cymru, rydym yn adolygu'r ffordd rydym yn asesu effaith yn barhaus, gan wneud addasiadau yn seiliedig ar newidiadau deddfwriaethol neu bolisi ac i wella arferion sefydliadol. Bydd ein cam gwella nesaf yn canolbwyntio ar ddiweddarau'r adnoddau a'r canllawiau yn dilyn trafodaethau rhanddeiliaid mewnol â pherchenogion rhannau gwahanol o'n Hasesiad Effaith Integredig ac â staff sydd â phrofiad o ddefnyddio'r adnodd presennol. Credwn fod ein ffocws ar wella ansawdd ac effeithlonrwydd asesiadau effaith yn gyson â diben argymhelliad 18, er y gall y camau gweithredu wyro (er enghraifft, rydym wedi bod yn datblygu hyfforddiant ym maes Asesu Effaith Polisiâu fel rhan o gyfres o sesiynau hyfforddi ar gyfer llunwyr polisi, yn hytrach na'r mathau penodol o hyfforddiant a nodir yn yr argymhellion). Bydd ein cynlluniau ar gyfer gwelliant parhaus yn datblygu; caiff yr awgrymiadau yn argymhelliad 18 eu hystyried ochr yn ochr ag adborth defnyddwyr er mwyn penderfynu ar y camau mwyaf pragmataidd i gefnogi asesiadau effaith effeithiol wrth inni symud ymlaen.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn mynd ati i roi'r camau gweithredu y galwyd amdanynt fel rhan o argymhelliad 19 ar waith, er enghraifft gwnaethom gyhoeddi ein [cynllun Hawliau Plant](#) diwygiedig ym mis Rhagfyr 2021 sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cefnogi hawliau plant. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys [Asesiad Effaith diwygiedig o Hawliau Plant](#) a [llawlyfr staff](#) sy'n tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i swyddogion wrth iddynt ystyried hawliau plant fel rhan o'r broses o lunio polisiâu.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydnabod y budd sy'n gysylltiedig â dull integredig o gynnal asesiadau effaith fel ffordd o feithrin gwell dealltwriaeth o effaith penderfyniadau gwario, gan gynnwys yr effeithiau croestoriadol ac anfwriadol, er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf posibl. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol o Gyllideb Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dull hwn ac amrywiaeth o dystiolaeth a gwybodaeth, gan gynnwys Asesiadau Effaith Integredig manwl a gynhelir fel rhan o'n gwaith parhaus i ddatblygu ac adolygu polisiâu. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i adolygu'r dull a ddefnyddiwn i asesu effeithiau yn barhaus fel rhan o'r cynllun blynyddol i wella'r gyllideb, a byddwn yn ystyried y camau pellach y gellid eu cymryd i ddefnyddio Asesiadau Effaith Integredig wrth wneud penderfyniadau'n ymwneud â'r gyllideb a chyllid.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymrwymedig i weithio gydag eraill i roi'r argymhellion hyn ar waith mewn achosion lle nad ni yw'r unig gorff sy'n gyfrifol am wneud hynny. Er enghraifft, yn achos argymhellion 20 a 21, byddwn yn gweithio'n agos mewn partneriaeth ag awdurdodau cyhoeddus a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar y camau y galwyd amdanynt.

E. CODI YMWHYBYDDIAETH – Argymhellion 34-39.

O ran argymhelliad 34, cynhaliwyd [ymgyngoriad cyhoeddus ar God Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig drafft](#) rhwng 31 Mai a 16 Gorffennaf 2021, yn dilyn trafodaethau ac ymrwymadau a wnaed wrth i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf) symud drwy'r Senedd yn 2020-2021. Cafodd yr

ymgyngoriad ar y Cod ei hyrwyddo i gynulleidfa eang o randdeiliaid gan gynnwys drwy ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Comisiynydd Plant Cymru, grwpiau plant, Estyn, ac undebau llafur. Roedd hyn yn dilyn fersiynau cynharach o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, a fu'n destun ymgyngoriad 12 wythnos o hyd yn flaenorol fel rhan o'r ymgyngoriad a oedd yn cwmpasu'r canllawiau drafft cyfan ar gyfer Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn 2019. Roedd hon yn broses ymgyngori sylweddol lle y cafwyd dros 2,000 o ymatebion amrywiol gan ymarferwyr, arweinwyr ysgol, rhieni, grwpiau diddordeb arbennig, y sector cyhoeddus a phlant a phobl ifanc. Ochr yn ochr â mewnbwn gan grwpiau ffocws, daeth 1,680 o gyflwyniadau digidol i law, ynghyd ag adborth gan 423 o ddysgwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o [adroddiadau sy'n cwmpasu'r ymgyngoriad hwnnw a'r ymatebion a gafwyd iddo](#), yn ogystal ag adborth ar y Cod drafft ei hun.

Fel rhan o'r broses hon, ac wrth roi'r dyheadau sy'n ymwneud â [phedwar diben](#) y cwricwlwm ar waith, cafodd [datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau](#) eu diwygio er mwyn adlewyrchu'r gofynion ar bob ysgol a lleoliad i sicrhau bod dysgu am degwch ac addysg hawliau dynol yn cael eu cynnwys ym mhob rhan o'r continwrm dysgu 3 i 16. Yn fwyaf nodedig, cafodd y datganiad o dan y teitl: "Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol" ei ddiwygio yn sgil y broses uchod, ac erbyn hyn mae'n nodi'r canlynol:

"Bydd y Maes hwn [Dyniaethau] yn annog dysgwyr i ddeall natur ryng-gysylltiol cynaladwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol; cyfiawnder ac awdurdod; a'r angen i fyw mewn cymdeithas decach a mwy cynhwysol sy'n wynebu hiliaeth ac yn mynd i'r afael â'r broblem, ynghyd â chyfrannu ati. Bydd profiadau yn y Maes hwn hefyd o gymorth i ddysgwyr feithrin ymwybyddiaeth o'u hawliau eu hunain (gan gynnwys yr hawliau a warchodir o dan UNCRC ac UNCRPD), ynghyd â'u hanghenion, eu pryderon a'u teimladau hwy eu hunain a phobl eraill, a sut mae'r fath ymwybyddiaeth yn cyfrannu at greu byd cynaliadwy a rhyng-gysylltiedig."

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn darparu bod yn rhaid i ysgolion a lleoliadau eraill hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth a hawliau dynol, ac mae hynny wrth wraidd y cwricwlwm. Mae addysgu [amrywiaeth](#) ym mhob rhan o'r cwricwlwm yn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu gweld ei hun a'i brofiadau yn cael eu cynrychioli yn yr hyn a addysgir iddo. Wrth i ddysgwyr ddatblygu, dylent ddod yn fwyfwy ymwybodol o amrywiaeth o nodweddion penodol a all ddiffinio ein hunaniaeth, gan gynnwys rhyw, rhywedd, hil, crefydd, oedran, anabledd a rhywioldeb.

Yn ogystal â'r uchod, ac i adlewyrchu llwybr y Ddeddf, cafodd canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ysgolion a lleoliadau ar [addysg hawliau dynol](#) eu diweddarau ar 10 Ionawr 2022. Fel un o Feysydd Gweithredu trawsbynciol y cwricwlwm newydd, mae'r canllawiau yn tynnu sylw nawr at bwysigrwydd addysg hawliau dynol ar draws y cwricwlwm. Mae hefyd yn rhoi eglurhad i ysgolion a lleoliadau nawr ynghylch un o ofynion y Ddeddf, sef bod yn rhaid iddynt hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o UNCRC ac UNCRPD ymhlith y rhai sy'n dysgu ac yn addysgu o ran cwricwlwm eu hysgol neu eu lleoliad. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, bod yn rhaid i arweinwyr ysgol sicrhau bod ymarferwyr a staff eraill yr

ysgol sy'n dysgu ac yn addysgu yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau dynol, fel y nodir gan y ddau gonfensiwn hyn.

O ran argymhelliad 37, nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau cyllido uniongyrchol ar hyn o bryd i gyllido (a dylanwadu ar) y modd y caiff cyrsiau addysg uwch yng Nghymru eu cyflwyno a'u haddysgu. Yn hytrach, mae ganddynt bwerau i gyllido CCAUC, sydd yn ei dro yn trosglwyddo'r cyllid hwnnw i sefydliadau AU. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau clir ar y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru i gyllido CCAUC sy'n eu hatal rhag atodi telerau ac amodau (ar y cyllid a roddir ganddynt i CCAUC) sy'n ymwneud â'r math o gyrsiau sydd ar gael ac ystod y cyrsiau hynny, a'r modd y caiff y cyrsiau hynny eu cyflwyno a'u haddysgu. Mater i brifysgolion yw hwn. Gallai unrhyw ymgais gan Lywodraeth Cymru i ddylanwadu ar y modd y caiff y gyfraith ei haddysgu yng Nghymru gael ei ystyried yn ffordd o osgoi'r gyfundrefn statudol hon a gallai fod yn destun her. Mae'r broses o sefydlu Cyngor Cyfraith Cymru ym mis Tachwedd 2021 wedi dwyn ynghyd holl ysgolion y gyfraith yng Nghymru mewn fforwm cydweithredol am y tro cyntaf, ochr yn ochr â chynrychiolwyr eraill o'r gymuned gyfreithiol, gan gynnwys ymarferwyr cyfreithiol a barnwyr. Mae pwyllgor gweithredol Cyngor y Gyfraith wrthi'n sefydlu gweithgor ar addysg gyfreithiol, a disgwylir y bydd y gweithgor hwn yn ystyried pa hyfforddiant cyfreithiol y dylid ei ddarparu o safbwynt fframwaith cyfreithiol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn hapus i dderbyn argymhellion 32, 36 a 38 ar y sail y bydd Cynllun Cyfathrebu Hawliau Dynol sylweddol yn cael ei ddatblygu i gefnogi ac adeiladu ar y canllawiau newydd a gaiff eu llunio fel rhan o'r camau cyntaf a gaiff eu rhoi ar waith.

3.2 CYFIAWNDER – Argymhellion 26; 30; 39

Eir i'r afael â'r tri argymhelliad hwn mewn cyhoeddiad sydd ar ddod a fydd yn nodi cynnydd yn erbyn argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Eir i'r afael â nhw drwy'r cyhoeddiad hwnnw a'r broses ddilynol ar gyfer monitro cyflawniad, a rhoddir diweddariadau rheolaidd i'r Grŵp Llywio Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Argymhelliad 26. Roedd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (Comisiwn Thomas), a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ddigynsail o ran maint y dystiolaeth a ystyriwyd a lefel y cyfranogiad o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Roedd Prif Weinidog Cymru yn glir pan gyhoeddwyd bod Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad ac y byddai'n mynd ar drywydd yr argymhellion ynddo drwy gymryd camau ar y cyd â phartneriaid yn ein maes cymhwysedd ein hunain a thrwy drafodaethau â Llywodraeth y DU.

Byddwn yn cyhoeddi dogfen yn fuan a fydd yn nodi'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud hyd yma wrth roi argymhellion Comisiwn Thomas ar waith a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â datblygiadau cysylltiedig ym maes cyfiawnder. Yn benodol, bydd y ddogfen yn rhoi manylion ar ein hymateb i argymhelliad 27 Comisiwn Thomas, sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad ac adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith ers hynny. Yn gryno, fodd bynnag, rydym yn cytuno ag elfennau allweddol o argymhellion Comisiwn Thomas a Chomisiwn y Gyfraith, sef y dylai fod gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru fwy o annibyniaeth strwythurol ac y dylai fod strwythur tribiwnlysoedd unigol a ddefnyddir lle bynnag y bo'n briodol ar gyfer datrys anghydfodau mewn deddfwriaeth ddatganoledig.

Ochr yn ochr â gwaith ar argymhellion y gellir ei wneud yng Nghymru, rydym wedi dechrau trafodaethau â Llywodraeth y DU yn ddiweddar ar argymhellion y mae angen i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder neu ei hasiantaethau fynd i'r afael â nhw. Disgwylw'n y bydd y trafodaethau hynny yn cwmpasu argymhellion 2, 20 a 39 Comisiwn Thomas, y tynnwyd sylw penodol atynt yn yr adroddiad ymchwil.

Yn olaf, o ran argymhelliad 21 Comisiwn Thomas, sy'n ymwneud â datrys anghydfodau gerbron llysoedd, tribiwnlysoedd, dulliau datrys anghydfodau amgen ac ombwdsmy'n yn cael eu cydgysylltu gan gorff a gadeirir gan uwch farnwr, ni fyddai modd i Lywodraeth Cymru sefydlu hyn o un tu, ond rydym yn ystyried bod gwerth posibl yn gysylltiedig â sefydlu corff tebyg i hwn, ac rydym yn bwriadu ymgynghori â'r rhai a allai gyfranogi mewn corff o'r fath maes o law er mwyn deall a oes unrhyw awydd i'w greu. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) wedi mynegi diddordeb mewn trafod y cynnig hwn ond mae hefyd wedi nodi pa mor bwysig ydyw na fydd unrhyw drefniadau o'r fath yn effeithio ar ei annibyniaeth.

Mae argymhelliad 30 yn galw ar i Bwyllgor Cyfiawnder gael ei sefydlu yn y Senedd. Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi cael ei sefydlu gan y Senedd i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliadau ac wedi cymryd tystiolaeth ar faterion sy'n ymwneud â chyfiawnder. Bydd y broses o ddiwygio'r Senedd yn galluogi'r Senedd i ystyried y posibilrwydd o sefydlu Pwyllgor Cyfiawnder â ffocws. Mater i'r Senedd benderfynu arno yw hwn.

Nid yw argymhelliad 39 wedi'i gyfeirio at Lywodraeth Cymru ac mae'n fater i'r ddau gorff annibynnol a nodwyd i'w ystyried. Rydym yn sicr yn rhannu'r bwriad sylfaenol ei fod yn bwysig bod gan y proffesiynau cyfreithiol wybodaeth weithiol gref am ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Nodwn nad yw Cymdeithas y Cyfreithwyr na Chynor y Gyfraith yn uniongyrchol gyfrifol am addysg na datblygiad proffesiynol parhaus ym maes y gyfraith; yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr sydd â'r cyfrifoldeb hwnnw o ran cyfreithwyr, ond gallai'r argymhelliad hwn fod yr un mor gymwys i weithwyr cyfreithiol proffesiynol eraill megis bargyfreithwyr. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phob elfen o'r proffesiwn er mwyn annog a chefnogi addysg broffesiynol briodol.

3.3 ARGYMHELLION A DDERBYNIWYD I'W RHOI AR WAITH YN Y DYFODOL NEU Y MAE ANGEN EU TRAFOD YMHELLACH AG ASIANTAETHAU ERAILL

Nid yw'r argymhellion canlynol yn disgyn yn uniongyrchol i un o'r Meysydd Gweithredu a nodir uchod. Os mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am roi'r argymhellion ar waith, cânt eu derbyn, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, gyda'r bwriad o'u rhoi ar waith yn y tymor hwy. Mae argymhellion y mae asiantaethau eraill yn gyfrifol am eu rhoi ar waith neu argymhellion y mae angen iddynt gael eu rhoi ar waith drwy bartneriaeth wedi'u hystyried hefyd a nodir sylwadau cychwynnol isod, sy'n cynnwys cyfraniadau gan gyrff eraill fel y nodir.

Argymhelliad 23: (Dylai Llywodraeth Cymru roi'r argymhellion a wnaed gan y Gweithgor Llesiant a Chydraddoldeb ar alinio prosesau ar waith, yn benodol, i'w

gwneud yn ofynnol i randdeiliaid bennu amserlenni a phwyntiau alinio ar gyfer gosod a chynllunio amcanion).

Ymateb: Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r argymhelliad hwn. Gwneir hyn ochr yn ochr â gwaith paratoadol ar y prif Feysydd Gweithredu, er mwyn penderfynu a ellir mynd i'r afael ag ef drwy un neu fwy o'r meysydd hynny neu a oes angen ei ystyried ar wahân.

Argymhelliad 24. Nododd adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar fframweithiau mesur, a gyhoeddwyd yn 2017, fod gorgyffwrdd sylweddol rhwng fframwaith mesur y Comisiwn a'r dangosyddion llesiant cenedlaethol, a bod y ddaau yn ategu ei gilydd yn dda. Ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, mae'r dangosyddion wedi cael eu hadolygu ac ychwanegwyd dangosydd cyfiawnder yn 2021 i fynd i'r afael â bwlch a nodwyd gan y Comisiwn. Rydym wedi ymrwmo i ddadansoddi dangosyddion cenedlaethol yn ôl nodweddion gwarchoddedig lle mae data ar gael. Mae adroddiad blynyddol Llesiant Cymru yn defnyddio amrywiaeth ehangach o ddata cyd-destunol, gan gynnwys data sy'n ymgorffori hawliau dynol, megis pleidleisio, caethwasiaeth fodern a throseddau casineb. Gallai fod lle i ehangu'r cwmpas hwn mewn rhai meysydd allweddol. Bydd yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn chwarae rôl allweddol wrth nodi bylchau mewn tystiolaeth ac ymgorffori'r defnydd o dystiolaeth am gydraddoldeb. Bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth ansoddol a meintiol. Rydym yn ystyried y ffordd orau o ymgorffori tystiolaeth ansoddol a phrofiadau bywyd ochr yn ochr â data meintiol mewn cyhoeddiadau ystadegol.

Argymhelliad 27. Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirdymor i gefnogi gwasanaethau gwybodaeth a chynghori er mwyn sicrhau y gall rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas gael y cyngor diduedd am ddim sydd ei angen arnynt i ddatrys problemau yn ymwneud â'u dyledion, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwmo i wneud hynny drwy'r Gronfa Gyngori Sengl a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2020. Mae'r Gronfa wedi sicrhau bod fframwaith o wasanaethau a gynlluniwyd yn strategol ledled Cymru lle y gall pobl gael mynediad di-dor i gyngor cyffredinol ac arbenigol ar les cymdeithasol (dyled, gwahaniaethu, cyflogaeth, tai a budd-daliadau lles) a chymorth cofleidiol i fynd i'r afael â'u problemau mewn ffordd gynaliadwy. Mae model darparu arloesol a chydweithredol y Gronfa yn llwyddo i ennyn diddordeb pobl y mae angen cyngor arnynt fwyaf. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gwnaeth gwasanaethau'r Gronfa helpu dros 127,000 o bobl, yr oedd 83% ohonynt o grŵp blaenoriaeth allweddol, gan gynnwys pobl anabl, pobl hŷn, a phobl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Argymhelliad 28. Yn 2019, aeth Llywodraeth Cymru ati i sefydlu chwe Rhwydwaith Cyngor Rhanbarthol er mwyn annog trefniadau cydweithio gwell ymhlith darparwyr gwybodaeth/cyngor, cyllidwyr, comisiynwyr a rhanddeiliaid perthnasol. Mae gan bob Rhwydwaith ei nodau/amcanion ei hun yn seiliedig ar flaenoriaethau rhanbarthol. Fodd bynnag, mae pob un o'r chwe Rhwydwaith yn rhannu nod allweddol o feithrin cysylltiadau atgyfeirio rhwng darparwyr a sicrhau bod pobl ar draws rhanbarth y mae angen cyngor arnynt fwyaf, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig, yn gwybod am y gwasanaethau a ddarperir ac yn gallu eu defnyddio. Mae Llywodraeth Cymru yn cydgysylltu'r gwaith o gyflwyno weminarau hefyd i godi ymwybyddiaeth aelodau'r Rhwydweithiau o faterion

allweddol. Rhagwelir y bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cymryd rhan mewn weminar ar gydraddoldeb a gyflwynir yn ddiweddarach yn 2022. Mae'r gwasanaethau cyngor ar wahaniaethu a ddarperir drwy'r Gronfa yn cynnwys gwasanaeth codi ymwybyddiaeth ar gyfer gweithwyr rheng flaen i wella eu dealltwriaeth o'r gwahaniaethu cudd sy'n bresennol o fewn problemau lles cymdeithasol unigolyn.

Argymhelliad 29. Mae angen i gyllid ar gyfer sefydliadau cymunedol llawr gwlad fod yn briodol ac yn gymesur â maint a chymhlethdod y rhaglen sy'n cael ei chyflwyno. Mae ein Cynllun Trydydd Sector yn annog swyddogion i ymgysylltu â sefydliadau cymunedol yn ystod camau cynnar y broses o lunio polisïau, yn ogystal â systemau cyllido, er mwyn sicrhau bod rhaglenni Llywodraeth Cymru yn hygyrch ac yn syml. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag is-bwyllgor Cyllido a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar gynllun gwaith sydd nid yn unig yn hyrwyddo gwaith y pwyllgor ond sydd hefyd yn nodi'r gwersi a ddysgwyd yn ystod pandemig COVID-19.

Argymhelliad 31. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon o hyn ymlaen) mewn perthynas ag argymhelliad 31. Mae'r Ombwdsmon wedi awgrymu wrthym ei fod yn croesawu'r argymhelliad hwn a'i fod yn ystyried i ba raddau y mae'n cael ei roi ar waith eisoes, neu y gallai gael ei roi ar waith, drwy swyddogaethau presennol. Eir i'r afael â'r cam gweithredu arfaethedig o ran y set gytûn o egwyddorion ar gyfer delio â chwynion i ryw raddau drwy waith yr Ombwdsmon fel Awdurdod Safonau Cwynion, y mae ei egwyddorion cyhoeddus yn nodi y dylai prosesau cwyno fod yn hygyrch (ni waeth beth fo'r gwyn). Er ei fod yn cydnabod nad yw'n cyfeirio ar hyn o bryd at hawliau dynol nac agweddau megis sicrhau bod y rhai sydd â phrofiad bywyd yn ymwneud yn uniongyrchol ag asesu a rheoli cwynion, mae'r Ombwdsmon yn agored i drafod â Llywodraeth Cymru sut y gellir mynd i'r afael â hyn ond byddai'n dadlau bod angen iddo gael ei alinio â'i rôl fel Awdurdod Safonau Cwynion.

Byddai angen bod yn ofalus wrth wneud unrhyw newidiadau i egwyddorion a chanllawiau'r Awdurdod Safonau Cwynion er mwyn sicrhau nad ydynt yn waharddol i'r cyhoedd drwy wneud iddynt feddwl nad yw'r polisi yn berthnasol i'w cwynion penodol nhw. Byddai angen ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol, megis Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd. Mae'r Ombwdsmon yn cyfeirio at ei gyhoeddiad 'Egwyddorion Gweinyddu Da'. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau. Mae egwyddorion 1 a 4 yn y canllawiau hyn yn berthnasol mewn perthynas â chydaddoldeb a hawliau dynol: mae egwyddor 1 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff weithredu yn unol â'r gyfraith ac mae egwyddor 4 yn pwysleisio'r angen i weithredu mewn ffordd deg a chymesur. Gallai'r canllawiau ar ddulliau 'cyfiawnder adferol' gael eu pwysleisio fel rhan o'r broses o ddiwygio canllawiau Egwyddorion Unioni'r Ombwdsmon y disgwylir iddi fynd rhagddi'n fuan.

Mae'r Ombwdsmon yn cydnabod nad oes unrhyw gorff mewn sefyllfa berffaith ar hyn o bryd i dderbyn cwynion ynghylch methiannau i gyflawni dyletswyddau cydraddoldeb neu hawliau dynol ac felly byddai'n croesawu'r cyfle i drafod â Llywodraeth Cymru sut y gellir mynd i'r afael â'r mater hwn drwy gyloedd gwaith cyrff presennol. Mae'r Ombwdsmon yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan

achwynwyr lais yn y broses o ymdrin â chwynion a bod y rhai sy'n delio â chwynion yn deall yr effaith y mae profiadau wedi'i chael ar achwynwyr. Fodd bynnag, mae'n awyddus i sicrhau bod pawb dan sylw yn ymddiried yn y broses a gwrthrychedd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad. Er mwyn sicrhau nad yw'r rhai sydd â 'phrofiad bywyd', boed yn staff mewnlol sy'n ymdrin â chwynion i'r corff neu'n unigolion allanol, yn wynebu baich a phwysau gormodol i ddatgelu eu nodweddion cydraddoldeb pan nad ydynt yn dymuno gwneud hynny, ac i sicrhau bod y broses o ymdrin â chwynion yn gyfrinachol, mae'r Ombwdsmon yn awgrymu y dylid pennu disgwyliad clir y dylai cyrff, lle y bo'n perthnasol, ymgynghori â'r rhai sydd â 'phrofiad bywyd' ar rai egwyddorion a materion cyfreithiol a godir gan gwynion (ond nid sylwedd y gŵyn); ac y dylai staff sy'n ymdrin â chwynion gael hyfforddiant priodol er mwyn rheoli materion cydraddoldeb a hawliau dynol sy'n codi mewn gwaith achos yn ddigonol

Mae **Argymhelliad 33** yn galw ar reoleiddwyr ac arolygiaethau i integreiddio cydraddoldeb a hawliau dynol mewn fframweithiau arolygu a rheoleiddio, gan gynnwys trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau yn y meysydd hyn. Prif gyfrifoldeb Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw sicrhau bod y gyfraith mewn perthynas â rhedeg gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yn cael ei chynnal. Mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant wedi cael ei ddatblygu'n ofalus er mwyn ymgorffori ac adlewyrchu hawliau pobl. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a rheoliadau, codau ymarfer, canllawiau statudol a safonau gofynnol cenedlaethol cysylltiedig. Mae AGC wedi integreiddio parch, amrywiaeth, hyrwyddo cydraddoldeb a chynnal hawliau pobl yn ei gwaith. Mae fframweithiau arolygu yn seiliedig ar fframwaith canlyniadau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a'u gofalgwyr. Caiff y fframweithiau eu cefnogi gan ganllawiau ar gyfer ein harolygwyr sy'n rhoi pwyslais ychwanegol ar berthnasedd a phwysigrwydd parchu amrywiaeth, hyrwyddo cydraddoldeb a chynnal hawliau dynol o fewn ein gwaith. Cyhoeddir canllawiau ar ein hymrwymiad i hybu a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant ar ein gwefan a gellir dod o hyd iddynt [yma](#).

Argymhelliad 40. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddysgu gwersi o'r hyn a ddigwyddodd yn ystod pandemig COVID-19 wrth inni weithio i sicrhau bod ein strwythurau llywodraethu yn gymesur ac yn effeithiol ar gyfer trosglwyddo o'r ymateb i'r argyfwng a thu hwnt

Atodiad A – Crynodeb o'r ymatebion fesul argymhelliad

Crynodeb o'r argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>1.</p> <p>i. Cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol – Deddf Hawliau Dynol (Cymru)</p> <p>ii. Sefydlu tasglu hawliau dynol annibynnol i ystyried opsiynau a chyflwyno cynigion manwl.</p> <p>iii. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau ar gyfer deddfwriaeth hawliau dynol sectoraidd, yn enwedig mewn perthynas â thai, UNCRDP, CEDAW, CERD, pobl hŷn a phlant.</p>	<p>Derbyn mewn Egwyddor</p> <p>Maes Gweithredu A</p>
<p>2. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol lunio, cyhoeddi a hyrwyddo datganiad a rennir o ymrwymiad i hawliau dynol, sy'n gysylltiedig â strategaethau, cynlluniau a pholisïau corfforaethol.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Maes Gweithredu B</p>
<p>3. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol integreiddio hawliau dynol fel safonau ar gyfer llunio polisiau i ddarparu gweledigaeth gryfach.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Maes Gweithredu B</p>
<p>4. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ymgorffori hawliau dynol trwy gynllunio gweithredu hawliau dynol.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Maes Gweithredu B</p>
<p>5.</p> <p>i. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau a gyllidir ddangos sut y byddant yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol.</p> <p>ii. Diwygio rheoliadau Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru 2011 (18) yn unol â hynny.</p> <p>iii. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am flaenoriaethau o ran cydraddoldeb a hawliau dynol i'r rhai sy'n gwneud cais am gyllid a'u cyfeirio at yr wybodaeth honno.</p> <p>iv. Dylai'r rhai sy'n gwneud cais am gyllid ddarparu datganiad ac asesiad effaith cydraddoldeb a hawliau dynol.</p>	<p>Derbyn yn rhannol</p> <p>Maes Gweithredu C</p>
<p>6. Dylid diwygio adran 30(e) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 neu dylid cyhoeddi canllawiau statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wahodd pobl sydd â diddordeb mewn cydraddoldeb a hawliau dynol i gymryd rhan yn eu gweithgareddau.</p>	<p>Derbyn yn rhannol</p> <p>Maes Gweithredu B</p>
<p>7. Dylai adran 38 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 gael ei diwygio, neu dylid cyhoeddi canllawiau statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wahodd pobl sydd â diddordeb mewn cydraddoldeb a hawliau dynol i gymryd rhan yn y gwaith o osod amcanion llesiant a'u cyflawni.</p>	<p>Derbyn yn rhannol</p> <p>Maes Gweithredu B</p>

Crynodeb o'r argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
8. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diwygio canllawiau ar gyfer cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn bod yn gyson â'r gwaith o gynllunio amcanion cydraddoldeb a hawliau dynol ac amcanion llesiant, gan roi argymhellion yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol ar waith.	Derbyn yn rhannol Maes Gweithredu B
9. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio canllawiau o dan adran 14 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 er mwyn sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried cydraddoldeb a hawliau dynol wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.	Derbyn yn rhannol Maes Gweithredu B
10. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sefydlu is-grwpiau cydraddoldeb a hawliau dynol er mwyn cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni ymrwymadau cydraddoldeb a hawliau dynol. Dylai adroddiadau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynnwys crynodebau o gyfranogiad a chanlyniadau.	Derbyn yn rhannol Maes Gweithredu B
11. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn perfformio'n well o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rhestrir cynigion manwl ar gyfer defnydd Llywodraeth Cymru o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru a rheoliadau diwygiedig o dan yr argymhelliad hwn.	Derbyn Maes Gweithredu C
12. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau anstatudol ar ofynion o ran sylw dyledus, gan bwysleisio pwysigrwydd asesu effaith.	Derbyn Maes Gweithredu B
13. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio canllawiau statudol er mwyn sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu hystyried pan fydd awdurdod cyhoeddus yn rhoi sylw dyledus i anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol (cynigion manwl wedi'u cynnwys).	Derbyn Maes Gweithredu B
14. Dylai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ddiwygio ac ailgyhoeddi canllawiau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i ddarparu canllawiau cryfach ar y berthynas rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol (cynigion manwl wedi'u cynnwys).	Nid ar gyfer Llywodraeth Cymru Meysydd Gweithredu B ac C
15. Dylai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gyflwyno canllawiau i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru ar 'Ddull Hawliau Dynol' pwrpasol ac adolygu'r canllawiau hynny yn barhaus, gan ddefnyddio modelau'r Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn.	Nid ar gyfer Llywodraeth Cymru Maes Gweithredu B
16. Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyn cyflwyno canllawiau newydd neu ganllawiau wedi'u diweddarau ar y berthynas rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol (cynigion manwl wedi'u cynnwys).	Derbyn Maes Gweithredu B

Crynodeb o'r argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
17. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno asesiad o hawliau dynol fel rhan o Aseidiadau Effaith Integredig.	Derbyn Maes Gweithredu D
18. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Aseidiadau Effaith Integredig yn effeithiol, yn enwedig o ran cynigion sy'n debygol o effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Cynigion manwl wedi'u cynnwys, sy'n cwmpasu hyfforddiant; defnyddio arbenigedd y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ac arbenigedd allanol; goruchwyliaeth gan Weinidogion, yr uwch wasanaeth sifil, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynwyr.	Derbyn yn rhannol Maes Gweithredu D
19. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau canllawiau mewnol ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol effeithiol, a'r Aseiad Effaith Integredig o Hawliau Plant (cynigion manwl wedi'u cynnwys).	Derbyn Maes Gweithredu D
20. Dylai awdurdodau cyhoeddus gyflwyno hawliau dynol fel ystyriaeth yn ystod Aseiad Effaith Cydraddoldeb, gyda goruchwyliaeth ar lefel uwch.	Nid ar gyfer Llywodraeth Cymru Maes Gweithredu D
21. Dylai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ddiwygio canllawiau ar asesu effaith er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i gydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys templed enghreifftiol a chanllawiau manwl ar arferion da ar bob cam.	Nid ar gyfer Llywodraeth Cymru Maes Gweithredu D
22. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal Aseiad Effaith Integredig o benderfyniadau cyllidebol a chyllido sy'n debygol o effeithio ar sefydliadau sy'n cefnogi/cynrychioli cymunedau difreintiedig.	Derbyn yn rhannol Maes Gweithredu D
23. Dylai Llywodraeth Cymru roi argymhellion y Gweithgor Llesiant a Chydraddoldeb ar alinio prosesau ar waith, yn benodol, i'w gwneud yn ofynnol i randdeiliaid bennu amserlenni a phwyntiau alinio ar gyfer gosod a chynllunio amcanion.	I'w ystyried ymhellach Adran 3.3
24. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl ddangosyddion a ddefnyddir i fesur cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant yn ymgorffori targedau canlyniadau hawliau dynol; yn cynnwys dangosyddion profiad bywyd ansoddol; ac yn cynnwys dangosyddion sy'n berthnasol i gymunedau amrywiol heb gynrychiolaeth ddigonol, gan ddefnyddio fframwaith mesur y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac "A yw Cymru'n Decach?"	Derbyn mewn egwyddor Adran 3.3
25. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i alluogi unigolion i ddwyn achos gerbron llys neu dribiwnlys i orfodi eu hawliau dynol (gweler Argymhelliad 1).	Derbyn mewn egwyddor Maes Gweithredu A
26. Dylai Llywodraeth Cymru wneud cynnydd mewn perthynas ag argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a gwaith ymchwil cysylltiedig, yn enwedig argymhellion 2; 20; 21; 27; 39.	Derbyn Adran 3.2

Crynodeb o'r argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
27. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cefnogaeth i wasanaethau eirioli a chynghori ac ystyried ffyrdd o flaenoriaethu gwasanaethau o'r fath ar gyfer cymunedau difreintiedig a chymunedau y gwahaniaethir yn eu herbyn.	Derbyn Adran 3.3
28. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol a Rhwydweithiau Cyngor Rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol, dyletswyddau a gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â chymunedau difreintiedig.	Derbyn Adran 3.3
29. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu cyllid a chefnogaeth ar gyfer sefydliadau cymunedol llawr gwlad sy'n cynrychioli cymunedau difreintiedig er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn syml i'w defnyddio.	Derbyn Adran 3.2
30. Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â Phwyllgor Busnes y Senedd gyda'r bwriad o sefydlu Pwyllgor Cyfiawnder yn y Senedd.	Derbyn Adran 3.2
31. Dylai Llywodraeth Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymgynghori â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddatblygu egwyddorion ar gyfer delio â chwynion sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb a hawliau dynol. Cynigion manwl wedi'u cynnwys.	Derbyn mewn egwyddor Adran 3.3
32. Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynwyr Cymru ystyried cyfleoedd i wella'r broses o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys protocolau ar gyfer rhannu data, a chydgyssylltu camau gweithredu gan ddefnyddio pwerau presennol i ddwyn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i gyfrif.	Nid ar gyfer Llywodraeth Cymru Maes Gweithredu E
33. Dylai rheoleiddwyr ac arolygiaethau integreiddio cydraddoldeb a hawliau dynol i fframweithiau arolygu a rheoleiddio, gan gynnwys trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau yn y meysydd hyn.	Nid ar gyfer Llywodraeth Cymru Adran 3.3
34. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol fel gofynion gorfodol ar bob cam o'r cwricwlwm ac ar gyfer pob oedran, gan ddefnyddio'r "Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig" a hyrwyddo manteision cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer cymdeithas.	Derbyn yn rhannol Maes Gweithredu E
35. Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus ar gydraddoldeb a hawliau dynol, sy'n gysylltiedig â sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau gwarchoddedig.	Derbyn yn rhannol Maes Gweithredu E
36. Dylai Llywodraeth Cymru arwain ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus genedlaethol i godi proffil cydraddoldeb a hawliau dynol.	Derbyn Gweler Adran E

Crynodeb o'r argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
37. Dylai Llywodraeth Cymru annog Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a sefydliadau Addysg Uwch i sicrhau bod addysg gyfreithiol yn cynnwys fframwaith cyfreithiol Cymru, yn enwedig o ran cydraddoldeb a hawliau dynol.	Derbyn yn rhannol Maes Gweithredu E
38. Dylai Llywodraeth Cymru ychwanegu tudalen arbennig at wefan Llywodraeth Cymru i ledaenu gwybodaeth am gydraddoldeb a hawliau dynol.	Derbyn Maes Gweithredu E
39. Dylai Cymdeithas y Cyfreithwyr / Cyngor Cyfraith Cymru chwarae rhan weithredol wrth hyrwyddo deddfwriaeth a fframweithiau cydraddoldeb a hawliau dynol ymhlith y proffesiynau cyfreithiol yng Nghymru.	Nid ar gyfer Llywodraeth Cymru Adran 3.2
40. Dylai Llywodraeth Cymru helpu grwpiau cyngori i ddylanwadu ar ymatebion polisi mewn meysydd â blaenoriaeth o ran cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys trwy ddysgu o brofiad y pandemig. Dylai hyn gynnwys sefydlu grwpiau cyngori sy'n dwyn ynghyd arbenigedd awdurdodedig mewn meysydd penodol a chyfeiriadau clir at gydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys y datganiad o ymrwymiad y cyfeirir ato yn argymhelliad 2.	Derbyn Adran 3.3